

## **Datganiad Cyfathrebu Datblygu'r Gweithlu 2021-22**

Rhoddir gwybodaeth i'n budd-ddeiliaid/partneriaid am bob cwrs hyfforddi sy'n ymwneud â'r holl gymwysterau perthnasol, Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a'r rhai sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol. Rhennir yr wybodaeth hon drwy ddefnyddio'r cyfeirlyfr hyfforddiant blynyddol (yn electronig) a thrwy gronfa ddata a chalendr hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Cyfeirlyfr a'r Cynllun Hyfforddi ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint gyda manylion yr holl gyrsiau a sut i wneud cais amdany'n nhw, ynghyd â ffurflen gais allanol. Caiff testunau hyfforddi ychwanegol a mwy o ddyddiadau cyrsiau eu hychwanegu drwy'r fwyddyn a bydd manylion yn cael eu hanfon dros e-bost pan fyddan nhw'n cael eu cyhoeddi, i roi gwybod i bartneriaid am yr hyn sydd ar gael. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr pan fydd eu lle(fydd) wedi ei gadarnhau neu pan na ellir cymeradwyo cais.

Mae pob cwrs ar gael yn ddi-dâl i'r holl fudd-ddeiliaid yn Sir y Fflint. Mae gan y Cyngor yr hawl i godi tâl am beidio â mynychu, yn unol â'n polisi codi tâl. E-bost yw'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd i bartneriaid ymgeisio am lefydd ar gyrsiau, drwy ddefnyddio'r ffurflen gais a ddarperir.

Yn unol â'r Strategaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd a Safonau'r Gymraeg, byddwn bob amser yn ceisio dilyn yr egwyddorion canlynol ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd a gwybodaeth a gyhoeddir ar wefan Sir y Fflint:-

- Wrth ddatblygu taflenni gwybodaeth am y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig, rydym wedi ymrwmo i egwyddorion iaith syml a hygyrchedd yr wybodaeth. Byddwn yn cynhyrchu ein gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) lle bo hynny'n bosibl ac mewn ieithoedd a fformatau eraill yn ôl y gofyn, yn unol â safonau corfforaethol ac arfer da derbyniol.
- Mae tudalennau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar y we'n rhoi gwybodaeth fanwl am ein gwasanaethau ac yn rhoi cyfle i aelodau o'r cyhoedd i gyfathrebu gyda'n gwasanaethau ar-lein. Rydym hefyd yn rhoi dolenni i'ch cyfeirio at adnoddau defnyddiol eraill ar-lein a gwefannau ein partneriaid.
- Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwybodaeth newydd i'r cyhoedd lle bo hynny'n briodol.

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu yn mynychu cyfarfodydd Darparwyr rheolaidd i drafod cyfleoedd hyfforddi a datblygu staff sydd ar gael, nodi bylchau a diffygion yn y trefniadau presennol a'u datrys lle bo hynny'n bosibl, a chanfod ac ymateb i anghenion hyfforddi sy'n codi drwy'r gwasanaeth.

Mae'r canlynol yn mynychu cyfarfodydd Darparwyr.

- Darparwyr o'r Sector Annibynnol
- Darparwyr Gofal i Oedolion
- Darparwyr Gofal Cartref
- Darparwyr Gofal i Blant
- Tîm Datblygu'r Gweithlu Cyngor Sir y Fflint

- Tîm Monitro Contractau Cyngor Sir y Fflint
- Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu